# Cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Mawrth 2025

Cynhelir y cyfarfod yn Hull, dan arweiniad cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), yr Athro Susan Jebb.  Mae dal i fod amser i gofrestru i'w wylio ar-lein.

Mae agenda'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau – Blwyddyn yn ddiweddarach
- Monitro clefydau a gludir gan fwyd
- Adennill costau awdurdodau lleol: canfyddiadau cychwynnol a chynnig ar gyfer y ffordd ymlaen
- Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan (Saesneg yn unig).

## Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025 yn gyfarfod agored, ac edrychwn ymlaen at groesawu aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i fod yno'n bersonol.

Os nad ydych wedi cofrestru eto, mae dal i fod amser i gofrestru i wylio'r cyfarfod yn fyw ar-lein.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost: fsaboardmeetings@onetwo.agency

## Cwestiynau i'r Bwrdd

I weld y cwestiynau sydd wedi dod i law'r ASB cyn y cyfarfod, ewch i dudalen y Bwrdd ar ein gwefan.